# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Tachwedd 4ydd 2025 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Rita Jones, Dewi Pritchard, Bethan Thomas, Maldwyn Jones, Eifion Davies, Gwenda Evans a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Morris, Iolo Evans, Gwynedd Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Hydref 7fed 2025) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned **– adroddodd y clerc fod y llwybr troed ym mynwent Frongoch wedi cael ei gwblhau ac awdurdodwyd y clerc i dalu'r anfoneb pan y ffyddai'n ei dderbyn. Roedd y clerc yn gobeithio bydd y contractwr coed yn cychwyn y gwaith yn fuan a chafwyd trafodaeth beth i wneud gyda'r coed wedi iddynt gael eu torri.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.
ii) Arolwg Strategaeth Gwastraff..

b) Amrywiol.
i) Cyngor Tref Y Bala – bwriad i ail leoli gwaith Celf Canolfan Cywain. **Nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad.**
ii) Cwmpas – grant Prosiect Perthyn.
iii) Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

v) Ceisiadau Cynllunio.
C25/0775/04/CC - Tocio a dymchwel coed gyda Gorchymyn Gwarchod Coed. Cysgod y Coed, Llanfor.
PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen - hysbysiad o'r weithdrefn

**Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i gais Cysgod y Coed.
Eglurodd y clerc fod yr Arolygydd wedi adolygu cais Fferm Wynt Gaerwen, yr Adroddiad ar yr Effaith Leol a'r holl sylwadau a gyflwynwyd ac wedi penderfynu bod angen sesiynau gwrandawiad i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.**

vi) Materion Ariannol
a) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu –** Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)

b) Ceisiadau ariannol.
**Cytunwyd i drafod cais Ambiwlans Awyr Cymru gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

## Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth Rhagfyr 2il yn Neuadd Mynach.